



TGAU
LLENYDDIAETH GYMRAEG
UNED 2: Y NOFEL
HAEN SYLFAENOL
(PAPUR ENGHREIFFTIOL)
1¼ awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 8 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r nofel y buoch chi'n eu hastudio ac atebwch y cwestiynau ar y nofel honno.

Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.

NOFELAU

Tudalen

LLLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas)	28
BACHGEN YN Y MÔR (Morris Gleitzman <i>Addasiad Elin Meek</i>)	30
DIFFODD Y SÊR (Haf Llewelyn)	32
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	34
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	36
DIM (Dafydd Chilton)	38

LLINYN TRÔNS – Bethan Gwanas

1. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Nodwch **ddau** reswm pam mae Gags ar goll yn y darn. [3]
- (b) Nodwch **dri** rheswm pam nad yw Llion yn hoffi Gags. [3]
- (c) Ysgrifennwch hanes y criw yn dringo'r graig ar yr ail ddiwrnod llawn yn y gweryll.
Eglurwch beth sy'n digwydd yn llawn.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]
- (ch) Sut gymeriad yw Gwenan? Pam rydych chi'n dweud hyn?
Rhowch resymau, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau. [6]
- (d) Darllenwch y darn a gymerwyd o **Llinyn Trôns** ar dudalen 29.
- (i) Edrychwch ar arddull llinell 3 yn y darn.
... a'i llygaid fel soseri (Gwenan)
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinellau 32-34 yn y darn.
Stopiodd Tecs yn stond.
"Y canlyniadau, syr?" gofynnodd Dei.
Nodiodd Tecs.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
- Dyfynnwch y nodwedd.
 - Enwch y nodwedd.
 - Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Gags.
Ysgrifennwch **ymson Gags** wrth iddo ganwio.
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]
- [40]**

- O fewn cwta chwarter awr, roedd yr hyfforddwyr i gyd wedi hel yn y cyntedd, efo paciau ar eu cefnau, ac yn pori dros fapiau a threfnu pwy oedd yn mynd i ble. Roedd Gwenan yno, yn sefyll yn stond, a'i llygaid fel soseri, yn troi a throi hances bapur yn ei llaw, nes roedd 'na ddarnau ohoni'n gonffeti ar y llawr.
- 5 "Paid â phoeni gormod," meddai Olwen wrthi. "Os ydi o wedi disgyn neu rw bath, mi fydd rhain yn siŵr o fedru'i achub o."
- "Disgyn? Be? Ti'n meddwl mai dyna mae o 'di 'neud? Ac wedi bod ar ei ben ei hun drwy'r nos – wedi torri'i goes neu rw bath? O plis na!" Dechreuodd grio nes roedd o'n brifo i'w chlywed hi.
- 10 Ro'n i'n teimlo'n uffernol. Onibai am y sgwrs ges i efo Donna, ella y bysan nhw wedi mynd i chwilio amdano fo neithiwr. Ro'n i'n dechrau teimlo'n sâl.
- Aeth yr hyfforddwyr allan yn dawel a mynd fesul pâr i wahanol gyfeiriadau. Rhuthrodd Nobi ar eu holau yn amlwg isio mynd efo nhw. Ro'n innau'n teimlo'r un peth; roedd synnwyr cyffredin yn deud mai gorau po fwy fyddai'n chwilio amdano fo.
- 15 Ond roedd Tecs Pecs a'r Pennaeth yn daer – roedd ni i gyd i fod i aros lle'r oedd ni, a dyna'r cyngor gafodd Nobi hefyd. Edrychai mor bathetic â'i ddwylo yn ei bocedi, yn eu gwyllo nhw'n mynd efo'r cerddeddiad hir, rhythmig 'na sydd gan fynyddwyr. Daeth 'nôl i mewn aton ni, a syllu ar Tecs Pecs.
- "Be 'dan ni i fod i 'neud 'ta, syr? Jest hongian o gwmpas nes dôn' nhw'n ôl?"
- 20 "Wel," cychwynnodd Tecs. Roedd o'n amlwg cymaint ar goll â'r gweddill ohonon ni. "Ydach chi wedi gorffen pacio?"
- "Do."
- "Be am bethau Gareth? Hwyrach y byddai'n syniad i rywun bacio ar ei ran o, rhag ofn." Cododd Gwenan ei phen. "Rhag ofn be syr?"
- 25 Aeth o'n annifyr i gyd. "Ym ... rhag ofn y bydd yn rhaid mynd â fo i'r ysbyty ar frys." Aeth Gwenan fel y galchen.
- Brysiodd Tecs i chwilio am rw bath call i'w ddeud.
- "Ond dw i'n siŵr y bydd o'n iawn, Gwenan. Paid â phoeni, mae Gareth yn fachgen digon call."
- 30 Yna mi ganodd y ffôn.
- "Ffacs," galwodd y Pennaeth o'r swyddfa.
- Stopiodd Tecs yn stond.
- "Y canlyniadau, syr?" gofynnodd Dei.
- Nodiodd Tecs.
- 35 "Ydach chi'n mynd i'w rhoi nhw i ni fel roeddach chi wedi trefnu, syr?" holodd Olwen.
- Edrychodd Tecs arni fel ceiliog wedi dychryn; doedd o'n amlwg ddim yn siŵr be ddylai fo 'neud. Yna, mi anadlodd yn ddwfn.
- "Waeth i mi 'neud am wn i, fedran ni wneud dim i helpu Gareth nes byddan nhw wedi dod o hyd iddo fo. Dowch i 'ngweld i mewn rhyw ddeng munud, yn nhrefn yr wyddor."
- 40 Ac mi sgrialodd am dawelwch y swyddfa.

BACHGEN YN Y MÔR – Morris Gleitzman (Addasiad Elin Meek)

2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Nodwch **ddau** beth sydd wedi digwydd i'r plant ar ôl cyrraedd y ddinas. [3]
- (b) Esboniwch beth yw cynllun rhieni Jamal. Nodwch **dair** ffaith. [3]
- (c) Ysgrifennwch hanes Jamal a Bibi yn cyrraedd 'Awstralia'/tir sych.
Eglurwch beth sy'n digwydd yn llawn.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]
- (ch) Sut gymeriad yw Bibi? Pam rydych chi'n dweud hyn?
Rhowch resymau, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau. [6]
- (d) Darllenwch y darn a gymerwyd o **Bachgen yn y Môr** ar dudalen 31.
- (i) Edrychwch ar arddull llinell 6 yn y darn.
"Dad", mynna Bibi, a'i llygaid yn wyllt a llinellau o lwch dros ei hwyneb.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinellau 13-14 yn y darn.
Y ddinas? Yfory?
"Pam?" medd Bibi, a'i llais yn crynu gan arswyd. "Beth mae hi'n wneud?"
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
- Dyfynnwch y nodwedd.
 - Enwch y nodwedd.
 - Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Jamal.
Ysgrifennwch **ymson Jamal** ar ôl iddo gyrraedd y cwch
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]
- [40]**

- Mae Dad yn fy nghario i a Bibi i lawr y grisiau i seler tad-cu Yusuf. Mae syniad arswydus yn pigo fy ymennydd cwsg.
- 5 'Ble mae Mam?' gofynnaf.
Naill ai mae'r bom wedi effeithio ar fy llais neu mae Dad yn esgus peidio â chlywed.
Mae'n ein rhoi ni ar y llawr ac yn rhuthro o gwmpas y seler, gan gydio yn ein bagiau.
'Dad,' mynna Bibi, a'i llygaid yn wyllt a llinellau o lwch dros ei hwyneb. 'Ble mae Mam?'
- 10 Mae Dad yn aros ac yn tynnu anadl ddofn. Mae'n penlinio wrth ein hochr ac yn rhoi ei fys dros wefus Bibi.
'Mae popeth yn iawn,' medd yn dawel. 'Mae Mam eisiau i ni fynd i'r ddinas. Fe fydd hi'n cwrdd â ni yno yfory.'
Dyma ni'n dau'n rhythu arno.
Y ddinas? Yfory?
'Pam?' medd Bibi, a'i llais yn crynu gan arswyd. 'Beth mae hi'n wneud?'
- 15 Mae Dad yn tynnu anadl ddofn arall. Mae e'n edrych fel petai eisiau meddwl beth i'w ddweud nesaf.
Dw i'n dechrau teimlo cymaint o ofn â Bibi.
'Mae Mam eisiau i mi fynd â chi i rywle diogel,' medd Dad. 'Rydan ni'n mynd i rywle yn y ddinas, ac fe welwn ni Mam yno yfory. Fe fydd hi'n iawn. Credwch fi.'
- 20 Dw i yn ei gredu fe. Fy nhad yw e. Fydd e byth yn dweud celwydd oni bai ei fod eisiau amddiffyn pobl.
'Os nad yw Mam yn iawn,' medd Bibi mewn llais ffyrnig sigledig, 'fe fydda i'n hynod, hynod o grac.'
Mae Dad yn ein cofleidio ac yn edrych i fyny grisiau'r seler.
- 25 'Yusuf,' galwa. 'Beth sy'n digwydd y tu allan?'
Mae ffyn baglau Yusuf yn ymddangos ar ben y grisiau. Wedyn ei ben.
'Mae pawb yn dal yno,' medd Yusuf. 'Mae'r stryd dan ei sang.'
Dw i'n gallu eu clywed nhw. Mae pobl o'r pentref i gyd yn siarad am y ffrwydrad ac yn meddwl ble rydyn ni. Mae rhai pobl yn gweiddi eu bod nhw wedi dod o hyd i
- 30 ddarnau ohonom.
Mae dychymyg byw iawn gan bobl y pentref yma.
Mae tad-cu Yusuf yn rhuthro i lawr y grisiau.
'Dyw'r tacsî ddim wedi cael difrod,' medd ef. 'A does neb wedi dod o hyd iddo fe yn y lôn eto.'
- 35 Mae golwg o ryddhad ar Dad. Wel, nid golwg o ryddhad yn union, ond golwg lai difrifol. 'O'r gorau', medd ef. 'Mae'n bryd i ni fynd.'

DIFFODD Y SÊR — Haf Llewelyn

3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Sut mae'r rhyfel wedi effeithio ar fywyd ym mhentref Trawsfynydd?
Nodwch **ddwy** ffaith. [3]
- (b) Nodwch **dri** pheth ddigwyddodd i lfor wrth iddo ymladd yn Ffrainc. [3]
- (c) Ysgrifennwch hanes Ellis (Hedd Wyn) yng Ngwlad Belg.
Eglurwch beth sy'n digwydd yn llawn.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]
- (ch) Sut gymeriad yw Gwen Jones? Pam rydych chi'n dweud hyn?
Rhowch resymau, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau.
- (d) Darllenwch y darn a gymerwyd o **Diffodd y Sêr** ar dudalen 33. [6]
- (i) Edrychwch ar arddull llinellau 11-12 yn y darn.
"Dwn i ddim beth ddaeth drosti, mae Dodo Citi y glenia o bobol fel arfer, ond roedd ei hwyneb hi'n welw a di-wên."
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinell 20 yn y darn.
"Eisteddais inna wrth ei hymyl. Wyddwn i ddim beth i'w ddweud."
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
- Dyfynnwch y nodwedd.
 - Enwch y nodwedd.
 - Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithol. [4]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Ann / Anni.
Ysgrifennwch **ymson Ann** ar ôl iddi ddwyn y bag o siop Mrs Lloyd.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen. [10]
- [40]**

5 Dyna pam rydw i ar fy ffordd i dŷ Lora rŵan, achos mae Ellis yn dweud fod yn rhaid i mi fynd â hanner dwsin o wyau yno. Roedd Dodo Citi, mam Lora, wedi anfon siwgwr i fyny yma, ac roedd Ellis yn dweud ei bod hi fwy o angen parcel bwyd na fo. Felly rydw i fel io-
io yn mynd a dŵad efo parseli bwyd, i lawr y ffordd ac i fyny yn fy ôl. Fedar Ellis ddim
5 mynd â phob peth efo fo, beth bynnag. Mae'n rhaid i bob dim sydd yn y coffor ffitio i'r sach gefn sydd ganddo fo.

10 Pan agorodd Dodo Citi'r drws mi fedrwn ddweud fod rhywbeth yn wahanol yno. Doedd hi ddim fel tasa hi am fy ngadael i mewn i ddechrau, dim ond cilagor y drws wnaeth hi, ac o'r ochr arall mi fedrwn glywed sŵn rhywun yn symud. Coesau cadair yn sgriffian yn
erbyn crawiau'r llawr a sŵn drws yn agor a chau.

"Aros funud, Anni," meddai hi a chau'r drws yn fy wyneb. Dwn i ddim beth ddaeth drosti, mae Dodo Citi y glenia o bobl fel arfer, ond roedd ei hwyneb hi'n welw a di-wên. Yna, wedi i mi aros am funud, mi glywn rhywun yn nesáu at y drws eto ac yn ei agor.

15 Lora oedd yno y tro yma. Dim ond un cip ar wyneb Lora ges i i sylweddoli fod rhywbeth mawr o'i le. Daeth rhyw deimlad oer drostaf i, yn union fel tasa rhywun wedi gwneud i mi lyncu rhew a bod hwnnw'n cau am fy nghalon i. Ddywedodd Lora ddim byd chwaith, a doedd hi ddim yn crio.

20 Estynnais yr wyau iddi, a chymerodd hithau'r fasedd a'i gwagio, cyn ei hestyn yn ei hôl i mi. Yna, eisteddodd Lora ar y stôl fach wrth y tân, ei breichiau am ei gliniau a'i llygaid yn syllu i nunlle. Eisteddais inna wrth ei hymyl. Wyddwn i ddim beth i'w ddweud. Roedd y gegin yn edrych yr un fath ag arfer, y lliain coch trwm ar y bwrdd, a'r lamp ar ei ganol, y ffenest fechan a'r les ar ei thraws yn gadael yr ychydig o olau a oedd yno i mewn. Roedd dail yr asbidistra yn creu cysgodion duon fel bysedd ar hyd y lliain bwrdd. Diolch byth
25 does ganddon ni ddim asbidistra yn ein tŷ ni. Does ganddon ni ddim les ar ffenestri yr Ysgwrn chwaith. Mae Bob yn dweud mai'r rheswm am hynny ydi fod coesau pryfaid cop yn mynd yn sownd yn y les, a'u bod nhw yno wedyn fel byddin, yn sownd yn eu hunfan.

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones

4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Nodwch **ddau** reswm pam mae Richard Jones yn crio ar ddechrau'r darn. [3]
- (b) Nodwch **dair** ffaith yn egluro sut mae'r heddlu wedi dod i wybod am hanes Richard Jones. [3]
- (c) Ysgrifennwch hanes Gareth Hughes yn ymosod ar Huw Gwastad Hir.
Eglurwch beth sy'n digwydd yn llawn.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]
- (ch) Sut gymeriad yw Gladys? Pam rydych chi'n dweud hyn?
Rhowch resymau, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau. [6]
- (d) Darllenwch y darn a gymerwyd o **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr** ar dudalen 35.
- (i) Edrychwch ar arddull llinell 7 yn y darn.
Yr oedd yn rhaid iddo sadio, yn rhaid iddo.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinellau 23 yn y darn.
Nid oedd dim i'w glywed.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
- Dyfynnwch y nodwedd.
 - Enwch y nodwedd.
 - Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Meredydd.
Ysgrifennwch **ymson Meredydd** ar ôl clywed bod Gladys wedi marw.
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]
- [40]**

Gwyddai Richard wrth iddo gael y garreg yn rhydd ei fod am ddechrau crynu. Ceisiodd ymbwyllo ond ni fedrai. Daeth y garreg o'i lle a gafaelodd Richard yn dynn yn y ffurf pyramid. Symudodd y lamp yn nes at yr achos a gwelodd siâp y garreg yn eglur yn y pridd, a'i gwely'n fwy gwastad na'r ochrau.

- 5 Synnai o deimlo'r dagrau'n crynhoi y tu ôl i'w lygaid, a cheisiodd eu dileu o'i feddwl. Gwybuasai ar hyd yr adeg, gwybuasai o'r dechrau un. Tynnodd fwy o'r pridd ymaith a'i ddwylo'n crynu fel pethau gwirion. Yr oedd yn rhaid iddo sadio, yn rhaid iddo. Yr oedd yn crynu gymaint nes bod y trywel yn gwneud sŵn wrth neidio ar y pridd. Ac yna daeth rhimyn o fag polythin i'r golwg. Gollyngodd Richard y drywel a chuddiodd ei wyneb yn ei ddwylo. Wylodd fel baban; wylodd nes bod y dirdyniadau'n trydanu drwy ei gorff, ond wylodd yn ddistaw.

Rhoes ei grysbas amdano ac eisteddodd ar y bwrdd. Taniodd sigarét orau'r greadigaeth.

- 15 Nid oedd erioed wedi meddwl amdano'i hun fel creadur teimladwy, ac ni ddaroganasai'n ei fywyd sefyllfa lle byddai'n gwneud peth mor blentynnaidd a di-fudd â cholli dagrau. Diolchodd nad oedd neb gydag ef gynnu i fod yn dyst i'r fath ffwlbri. Ond yr oedd y smôc yn dyfod ag ef ato'i hun, a gwyddai na fyddai'n gadael i'w deimladau fynd yn drech nag ef byth wedyn. Tynnodd yn hir yn ei sigarét cyn ei thaflu i'r pridd. Llyncodd y mwg i gyd a gwnaeth fochau crynion wrth ei chwythu'n ôl i'r awyr yn ffrwd syth o'i flaen.

Neidiodd ar ei draed a diffoddodd y lamp. Gwrandawodd yn astud a'i lygaid yn troi'n syn. Dechreuodd glywed ei galon yn curo. Croesodd dros y twll a rhoes ei glust ar y drws. Nid oedd dim i'w glywed. Ond gwyddai nad wedi dychmygu'r peth yr oedd. Clywsai leisiau oddi allan.

- 25 Daliodd ei anadl wrth wrando â'i glust yn dynn wrth y drws. Bu bron iddo ddisgyn i'r twll pan ddaeth sŵn sydyn yn union gyferbyn â thwll ei glust. Safodd yn ei ôl a golwg ddychrynedig arno. Yr oedd rhywun y tu allan yn ysgwyd y clo clap. Clywodd lais aneglur a llais arall yn ei ateb, a daeth distawrwydd eto. Aeth Richard yn ôl i ganol y llawr a'r ofn yn llenwi ei gorff. Rhoes ei law dros ei galon yn ddiarwybod.

- 30 Ciliodd yn ôl drachefn wrth i sŵn ddod o'r ffenest. Yr oedd y llais yn eglur y tro hwn. "Mae hon wedi cau hefyd."

Dechreuodd Richard fynd i banig wrth weld rhimyn o gylch golau'n ymddangos drwy'r blanced. Ceisiai rhywun edrych i mewn i'r sied, a chlywodd lais aneglur arall. Yna digwyddodd rhywbeth a droes ei ofn yn arswyd. Nid oedd dim amheuaeth yn y sŵn, llais dyn yn siarad a hisian a chleician radio'n gefndir iddo.

35

I BLE'R AETH HAUL Y BORE – Eirug Wyn

5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Nodwch **ddau** brofiad ofnadwy y mae Haul y Bore wedi'u cael. [3]
- (b) Nodwch **dri** pheth wnaeth Chico ar ôl iddo glywed stori Quannah. [3]
- (c) Ysgrifennwch hanes Haul y Bore ar ei thaith i'r Bosque.
Eglurwch beth sy'n digwydd yn llawn.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10]
- (ch) Sut gymeriad yw Dicks? Pam rydych chi'n dweud hyn?
Rhowch resymau, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau. [6]
- (d) Darllenwch y darn a gymerwyd o **I Ble'r Aeth Haul y Bore?** ar dudalen 37.
- (i) Edrychwch ar arddull llinell 13 yn y darn.
“Wyt ti'n deall, Haul y Bore? Mae Chico'n fyw!”
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinellau 25 yn y darn.
Claddodd ei hwyneb yn ei fynwes a dechreuodd wylo.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
- Dyfynnwch y nodwedd.
 - Enwch y nodwedd.
 - Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Kit Carson.
Ysgrifennwch **ymson Kit Carson** ar ôl iddo adael y Cotiau Glas.
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.
Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10]
- [40]**

Roedd Chico erbyn hyn yn sefyll, ac yn cerdded pedwar neu bum cam ar y tro. Roedd ei goesau'n cryfhau, ond gwyliai Tanuah a Benito nad oedd yn gor-wneud pethau, ac er ei fod ar dân eisiau gweld Haul y Bore, gwyddai nad oedd yn ddigon cryf eto i ddal taith mor bell â'r daith i Geunant de Chelley.

- 5 Pan glywodd fod Chico yn dal yn fyw, roedd Geronimo wedi dod i ganlyn Benito, ac wedi dod i'r ogof i'w weld. Bu Chico ac yntau yn siarad yn hir. Roedd Geronimo wedi gwirioni ar ei stori am ddial ar y Cotiau Glas a rhagwelai y byddai ei wrhydri yn dod yn rhan o chwedloniaeth yr Apache. Rhyw ddydd, byddai Chico'n bennaeth!

* * *

- 10 Roedd Manuelito'n methu deall Haul y Bore. Roedd o'n gwybod ei bod wedi cael profiadau erchyll ac mai dyna'r rheswm pam ei bod yn methu siarad, ond pan ddaethai Benito yr Arapaho â'r newyddion fod Chico'n fyw, roedd o wedi credu'n siŵr y byddai hynny'n ei symbylu i ddod dros ei hanhwylder. Ond nid felly y bu.

"Wyt ti'n deall, Haul y Bore? Mae Chico'n fyw!"

- 15 Edrychodd ei ferch arno. Roedd ofn a dagrau yn llenwi'i llygaid. Roedd ei llygaid yn agor ac yn cau, a'r dagrau yn dechrau powlio i lawr ei gruddiau. Am ennyd credai Manuelito mai dagrau o lawenydd oedden nhw, ond roedd yr ofn yna'n dal yn ei llygaid. Roedd hi'n agor ac yn cau'i llygaid fel y llifai ei dagrau. Dechreuodd ysgwyd ei phen yn ôl ac ymlaen. Roedd hi ar fin dweud rhywbeth, ond ni ddeuai gair o'i genau. Rhywsut gwyddai Manuelito mai 'Na! Na! Na!' roedd hi eisiau ei ddweud, ond ni fedrai yn ei fyw
- 20 ddeall pam na ddeuai'r geiriau dros ei gwefusau.

Gafaelodd ynddi a'i gwasgu i'w fynwes.

"Dyna ti, 'mach i! Dyna ti!"

- Roedd Haul y Bore wedi deall ei eiriau, a fedrai hithau ddim dirnad pam na ddywedodd y geiriau. Estynnodd ei breichiau am ei thad a gafaelodd yn dynn ynddo.
- 25 Claddodd ei hwyneb yn ei fynwes a dechreuodd wylo.

Wrth gwrs ei bod yn falch fod Chico'n fyw, ond roedd ganddi ofn. Ofn ei wynebu. Ofn iddo'i beio hi ...

DIM – Dafydd Chilton

6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Nodwch **ddau** brofiad sydd wedi achosi i Gwyn gefnogi ymgyrch Datganoli (mwy o hawliau i Gymru). [3]
- (b) Nodwch **dri** pheth a ddigwyddodd i Owain yn y fyddin. [3]
- (c) Ysgrifennwch hanes Owain yn y fynwent yn Iwerddon.
Eglurwch beth sy'n digwydd yn llawn.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]
- (ch) Sut gymeriad yw Gwyn? Pam rydych chi'n dweud hyn?
Rhowch resymau, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau. [6]
- (d) Darllenwch y darn a gymerwyd o **Dim** ar dudalen 39.
- (i) Edrychwch ar arddull llinell 15 yn y darn.
“*Roedd Gwyn fel petai wedi tyfu.*”
Dwedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinell 20 yn y darn.
“*Yna torrwyd yr hud.*”
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
- Dyfynnwch y nodwedd.
 - Enwch y nodwedd.
 - Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Owain.
Ysgrifennwch **ymson Owain** ar ôl iddo dderbyn y cyfnod Sabothol gyda'r fyddin yng Nghymru.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen. [10]
- [40]**

Agorodd Gwyn ei geg i ateb.

“Get out!!”

Dechreuodd Gwyn symud trwy'r disgyblion, yn araf ond yn ddirwystr, fel petai pawb newydd ddarganfod fod ganddo afiechyd heintus.

5 Roedd Dai Lewis yn ddisgyblwr diarhebol o lym. Ond roedd y llipryn hwnnw *Lloyd from the hills* wedi rhoi pîn ym mogel ei anerchiad cyntaf fel Y Prif. Roedd wedi difetha un o ddigwyddiadau mawr ei fywyd. Roedd yn poeri.

“Go to my Office! How DARE you interrupt ME! You IGNORANT Welsh INSECT!”

Arhosodd Gwyn.

10 Daliodd Owain ei wynt. Paid, Gwyn. Dalia i fynd. Dydi o'm werth o.

Trodd Gwyn a chodi ei ên.

Synhwyrodd pawb fod rhywbeth anarferol yn digwydd ac, fel un wedi ei hudo, fe wylion nhw Gwyn â'u llygaid yn grwn. Daliai Dai Lewis i fytheirio ond roedd hi'n rhy hwyr i atal dim drwy weiddi. Dechreuodd Tom Tilley a Spring i lawr o'r llwyfan.

15 Roedd Gwyn fel petai wedi tyfu. Roedd yna awra o'i gwmpas, rhywbeth gloyw, hud, brawychus. Roedd yn rhywun arall. Ac fel yr arall hwnnw roedd ganddo'r holl amser yn y byd i godi ei fraich...

Ac yna, ei ddau fys...

Ar Dai Lewis.

20 Yna torrwyd yr hud. Cyrhaeddodd Tom a Spring, a gafael yn Gwyn. Safodd yntau'n ufudd a'i ddwylo wrth ei ochr, a than ergydion dyrnau'r ddau athro fe'i llusgwyd o'r neuadd.

Chafodd Owain byth wybod beth yn union a ddigwyddodd i Gwyn ar ôl yr *assembly*. Ond fe welodd y cleisiau. Roedd y marciau coch-yn-troi'n-borffor a welodd wrth noswyllo'r noson honno yn amlwg ac yn niferus ar hyd cefn a chefnau coesau ei frawd. Ddywedodd

25 Gwyn yr un gair. Roedd yn amlwg mewn poen, ond roedd yna hefyd ysgafnder o'i gwmpas nad oedd Owain wedi ei weld o'r blaen. Ysgafnder aderyn bach. Un â'i nyth mewn lle diogel.